

Rhondda Cynon Taf Cyllideb 2018/19

[www.rctcbc.gov.uk/
llyfrcyllideb](http://www.rctcbc.gov.uk/llyfrcyllideb)



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF - DARLUN

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ffurfio ym 1996 o dair o ardaloedd yr hen Forgannwg Ganol. 238,179 o bobl sy'n byw yma, ac o ran y boblogaeth felly, dyma'r trydydd awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu arwynebedd o 424km² yng Nghymoedd y De, yn ymestyn o Fannau Brycheiniog i'r gogledd i ddinas Caerdydd i'r de.

Mae'r tair ardal ddaearyddol sy'n ffurfio Rhondda Cynon Taf yn rhannu ystod o nodweddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel o dlodi cymharol ac o allgau cymdeithasol, yn enwedig yng nghymoedd gogleddol y sir. Gan y rhain mae rhai o'r dangosyddion amddifadedd uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Caiff gwasanaethau'r Cyngor eu rheoli a'u cynnal gan ei gyfadrannau sy'n rheoli a chydlynu gwasanaethau cysylltiedig. Mae pedair cyfadrannau yn strwythur cyfredol y Cyngor:

Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant :

sy'n cynnal gwasanaethau cymorth i ysgolion, Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu, Mynychu'r Ysgol a Lles, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Rheoli Asedau a Data, Gwasanaethau Arlwyyo a gwasanaethau gwella ysgolion a her mewn partneriaeth â Chonsortium Canolbarth y De.

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant:

sy'n cynnal Gwasanaethau Gofal Cymuned, Gwasanaethau Tai Cymunedol, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Gwasanaethau i Blant, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad, Atyniadau i Ymwelwyr a Threftadaeth, Gwasanaethau Addysg yn y Gymuned, Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid a Rhaglenni Cyflogaeth.

Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen:

sy'n cynnal gwasanaethau rheng flaen ar gyfer Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol, Gwasanaethau Gofal y Strydoedd (gan gynnwys Gwastraff a Glanhau Strydoedd), Gofal i Gwsmeriaid, gweinyddu Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor ynghyd â gwasanaethau cymorth allweddol ei Wasanaethau Cyllid, TGCh, Rheoli Eiddo'r Cyngor a Chaffael.


Cyfadrannau y Prif Weithredwr:

sy'n cynnal gwasanaethau trawstoriadol Adnoddau Dynol, y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, a Gwasanaethau Adfywio a Chynllunio.

Refeniw'r Gronfa Gyffredinol: Math o wariant 2018/19

2017/18		2018/19
Cyllideb		Cyllideb
£miliwn		£miliwn
282.053	Gweithwyr	286.661
29.303	yr Eiddo	29.054
24.817	Trafnidiaeth	24.991
78.636	Cyflenwadau a Gwasanaethau	74.757
126.281	Trydydd parti	132.617
97.313	Taliadau Trosglwyddo	95.790
6.759	Gwasanaethau Cymorth	6.484
26.418	Cyllid Cyfalaf	26.976
671.580	Cyfanswm Gwariant	677.330
(212.640)	Cyfanswm incwm	(205.730)
458.940	CYLLIDEB REFENIW NET	471.600
	Ariannwyd gan:	
(279.035)	Grant Cynnal Refeniw	(288.556)
(76.412)	Ardrethi Annomestig	(75.620)
(1.433)	Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn	(1.022)
102.060	I'W DALU GAN DALWYR TRETH Y CYNGOR	106.402

Sut caiff yr arian ei wario – Cyllideb 2018/19




RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR


CYFADRAN	CYLLIDEB		
	2018/19	2019/20	2020/21
	£miliwn	£miliwn	£miliwn
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant			
Gwasanaethau Uniongyrchol, Busnes a Thai	3.550	0.550	0.550
Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd	3.493	0.550	0.550
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant			
Ysgolion	36.333	3.491	0.146
Rhaglen Gyfalaf Atodol	6.876	4.900	4.900
Uwchadran y Prif Weithredwr Adfywio a Chynllunio	31.001	19.121	0.740
Tai'r Sector Preifat	8.282	5.368	5.368
Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus	0.085	0.020	0.020
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen			
Adran Eiddo'r Cyngor	0.200	0.200	0.200
Gwasanaethau Ariannol	0.700	0.700	0.700
Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd	11.772	1.835	1.835
Prosiectau Strategol	11.879	0.708	0.325
Gwastraff	0.100	0.000	0.000
Fflyd	3.163	4.593	2.400
Adeiladau	0.100	0.100	0.100
Cyllidebau Corfforaethol			
Mentrau Corfforaethol	1.044	0.850	0.850
CYFANSWM CYLLIDEB CYFALAF	118.578	42.986	18.684

* Mae amcangyfrifon 2018/2019 yn cynnwys amcangyfrif o lithrant o 2017/2018, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno'r rhaglen dair blynedd.

Gwariant Cyfalaf yn ôl Cyfadran 2018/19



Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf 2018/19




REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL

Cyllideb 2017/18		Cyllideb 2018/19
£miliwn		£miliwn
	<u>Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant</u>	
73.850	Gwasanaethau i Oedolion	80.303
44.987	Gwasanaethau i Blant	46.011
3.170	Trawsnewid	3.083
16.069	Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned	20.751
138.076		150.148
	<u>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</u>	
30.905	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)	26.712
146.950	Ysgolion Dirprwyedig	148.819
177.855		175.531
	<u>Uwchadran y Prif Weithredwr</u>	
0.410	Prif Weithredwr	0.399
2.523	Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus	2.566
3.571	Adnoddau Dynol	3.704
3.286	Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol	3.536
2.119	Adfywio a Chynllunio	2.329
11.909		12.534
	<u>Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen</u>	
44.807	Gwasanaethau Rheng Flaen	47.816
5.307	Gwasanaethau Ariannol	5.127
3.854	TGCh	4.001
2.065	Gofal i Gwsmeriaid	2.194
4.935	Rheoli Eiddo'r Cyngor a Chaffael	4.521
0.155	Rheoli'r Gyfadran	0.153
61.123		63.812
388.963	Cyfanswm Cyllideb y Cyfadranau	402.025
	<u>Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</u>	
19.557	Cyllid Cyfalaf	19.947
11.649	Ardollau	11.790
14.864	Amrywiol	13.658
0.400	Rhyddhad Ardreth Annomestig	0.400
23.507	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	23.780
69.977	Cyfanswm Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	69.575
458.940	CYFANSWM CYLLIDEB REFENIW	471.600

* Mae ffigurau 2017/2018 yn cael eu nodi er gwybodaeth. Gall newidiadau o ran gofynion cyfrifyddu a chyfrifoldebau swyddogaethol amrywio'r darlun wrth gymharu blynyddoedd.

Gwariant Cyfalaf yn ôl Cyfadran 2018/19



Rhai ffeithiau allweddol o ran cyllideb 2018/19 y Cyngor

- Gostyngiad o 0.5% yn y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer CBS RhCT
- Parhau i dargedu unrhyw adnoddau sydd ar gael yn y tymor canolig i flaenoriaethau strategol allweddol y Cyngor fel sy wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor
- Cynnydd o 3.30% yn Nhreth y Cyngor (58c yr wythnos ar gyfer eiddo Band A)
- Cyllid priodol ar gyfer cyflog, costau dydyn nhw ddim ynglŷn â chyflog, gofynion ariannu corfforaethol ardollau a beichiau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y Cyngor
- Cynnydd cyllid o 1.4% i ysgolion sy'n cynrychioli cynnydd blynyddol o £2 filiwn
- Cronfa Cyfalaf wrth gefn i barhau yn £10 miliwn
- Arbedion effeithlonrwydd sylweddol ar draws holl wasanaethau (£7.050 miliwn)
- Mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn o £1.022 miliwn (Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaethau) yn gyllid pontio
- Proses ymgynghori newydd i'r gyllideb, gan gynnwys efelychydd cyllideb ac achlysuron ymgysylltu yn ein trefi

Pencadlys Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Y Pafiliynau/The Pavilions	Tŷ Bronwydd	Tŷ Glantaf
Parc Diwydiannol Hen	Tŷ Bronwydd	Uned B23, Ystad
Lofa'r Cambrian		Ddiwydiannol Trefforest,
Cwm Clydach, Tonypany	Y Porth	Pontypridd
CF40 2XX	CF39 9DL	CF37 5TT

Ffôn: (01443) 424000
Ffacs: (01443) 427027

Ffôn: (01443) 680500
Ffacs: (01443)
680555

Ffôn: (01443) 425001
Ffacs: (01443) 827730

Pencadlys Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Uned B1, Tŷ Elái,
Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf (Dwyrain)
Tonypany
CF40 1NY

Ffôn: (01443) 442100
Ffacs: (01443) 425440

Pencadlys Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ

Tel: (01443) 744000
Ffacs: (01443) 744023